

Papur Pawb

Pris: 50c

Chwefror 2010

Rhif 356



tud 3

Pobl a Phethe

tud 6

Ble yn y byd?

tud 7

Dirgelwch Cerdyn Post

tud 12

Chwaraeon

Cadw'r Gwasanaeth Post

Wedi misoedd o ansicrwydd ynghylch dyfodol y gwasanaeth post yn Nhal-y-bont, newyddion i'w groesawu yw y bydd y gwasanaeth yn cael ei ddiogelu o dan gytundeb partneriaeth newydd gyda Swyddfa'r Bost Penparcau, ac yn parhau ynghlwm wrth y siop o dan ofal Heulwen Astley. Bydd bron yr holl wasanaethau a oedd ar gael yn y gorffennol yn parhau. Bydd modd codi arian pensiwn, talu biliau trydan, BT, treth y Cyngor a rhent y Cyngor, prynu stampiau a phostio fel o'r blaen, ond bydd rhaid mynd â pharseli mawr i ganolfan arall. Bydd y swyddfa ar agor am bedwar diwrnod llawn ar ddydd Llun, Mawrth, Iau a Gwener (9.00am tan 1.00pm, a 2.00pm tan 5.30pm), am hanner diwrnod ar ddydd Mercher (rhwng 9.00am ac 1.00pm), a bydd ar gau ar ddydd Sadwrn. Dywedodd Peter Edwards, postfeistr Penparcau: 'Mae'r cytundeb partneriaeth yn para am flwyddyn yn y lle cyntaf, ac yr wyf yn falch fod y gwasanaeth yn Nhal-y-bont yn cario 'mlaen. Gobeithio y bydd pobl yr ardal yn dal i gefnogi Heulwen fel o'r blaen.'

Y Patshyn Glas yn Batshyn Gwyn

Un olygfa werth ei gweld oedd honno pan welwyd defaid Bwlchyddwyallt yn cael eu cerdded o Gwm Ceulan i lawr trwy ganol pentref Tal-y-bont, golygfa nas gwelir yn aml erbyn hyn. Yr oedd cymaint o eira ar ffordd Cwm Ceulan fel na ellid eu cludo mewn lori. Ddyddiau a fu, golygfa gyffredin iawn oedd gweld preiddiau'n cael eu cerdded o'r mynyddoedd, ac mae sawl un o'r trigolion yn cofio gweld defaid Glanfrêd yn cael eu gyrru trwy waelod y pentref yn eu cannoedd.



'Oet Ionawr yn oer....'

Daeth eira cyntaf y flwyddyn a'r rhew caled i greu tipyn o anhwylustod i bawb ddechrau Ionawr. Cafodd plant ysgolion Llangynfelyn a Thal-y-bont, a Phenweddig a Phen-glais, wythnos yn ychwanegol o wyliau, ac ni allodd ambell un adael y tŷ oherwydd cyflwr y ffyrdd. Cafwyd eithaf trwch ar y mynyddoedd, ac yr oedd ffordd Blaen Ceulan wedi cau gyda'r lluwchfeydd. Bu ffotograffwyr *Papur Pawb* wrthi'n brysyr yn dal ambell olygfa yng nghanol yr eira, ond ni fu pethau cynddrwg yn yr ardal ag oeddynt yn 1981 ac yn 1982.



Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol: Geraint Evans (01970) 832473
Garnwen, Tal-y-bont SY24 5EY post@garnwen.org
Tynnu lluniau: Cysyllter â golygyddion y mis.

Bont-goch: Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566
Parsel Henlys: Dilys Morgan, Alltgoch 832498
Eglwysfach: Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais (01654) 781312
Taliesin: Mai Leeding, Glannant, Taliesin 832672
Tal-y-bont: Aileen Williams, Maesmeillion 832438
Kathleen Richards, Y Bryn 832201
Tre'r Ddôl: Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl 832429
Janet Evans, Cefngwiriog (01654) 781260
Maes y Deri: Eirlys Jones, 91 Maes y Deri 832483

CYMDEITHAS PAPUR PAWB
Bledyn Huws, Henllan, Tal-y-bont 832448
Is-gaderydd: Geraint Pugh, Cysgod-y-Llan, Dôl Pistyll 832433
Ysgrifennydd: Megan Mai, Gwynionydd, Tal-y-bont 832384
Tysorydd: Gwyn Jenkins, Maesgwyn, Tal-y-bont 832560
Aelodaeth: Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont 832438
Hysbysebion: Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais (01654) 781312
Plygu: Gwenllian Parry-Jones, Lyn Hammonds
Dosbarthwyr: Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones, Bledyn Huws (Tanysgnifiadau)

Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth
Cyngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd Gorllewin a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Llythyrau



Ffermwr Gorau Cymru 2010, cysylltwch â thim Fferm Ffactor, Cwmni Da, Cae Llenor, Lôn Parc, Caernarfon, Gwynedd LL55 2HH neu drwy ffonio (01286) 685300 neu e-bostio lowri.evans@cwmnida.tv.

Yr eiddoch yn gywir,

Lowri Evans
Ymchwilydd Fferm Ffactor

Alltgoch
Tal-y-bont

Hoffwn ar ran Pwyllgor Sioe'r Cardis 2010, ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant y Gymanfa Garolau a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr yng Nghapel Bethel. Gwnaed elw o dros £2,500 i'r gronfa, a gwerthfawrogwyd pob help yn fawr iawn.

Yr eiddoch yn gywir,
Dilys Morgan

Llythyr arall: Tudalen 5

"OS MÊTS"

RHAGLEN TYMOR Y GWANWYN 2010 AMRYWIOL

Bydd cyfle i aelodau "Os Mêts" fwyhau nifer o weithgareddau amrywiol yn ystod cyfnod y Gwanwyn gan ddechrau gyda chyfarfod agored pryd y bydd Wynford Ellis Owen, Prif Weithredwr Cyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau yn trafod agweddau ar faterion cyfoes yn y maes.

DYDDIAD	GWEITHGAREDD	LEOLIAD
MIS CHWFROR Nos Iau 11 th	Materion Cyfoes gydag Wynford Ellis Owen	Festri'r Garn, Bow Street
Nos Iau 25 th	Dathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni Lyn Lewis Dafis	Festri'r Garn, Bow Street
MIS MAWRTH Nos Iau 11 th	Hwyl a Sbrî	Festri'r Garn, Bow Street
Nos Wener 26 th	Gŵyl "Drws Society Profiad"	Neuadd Tal-y-bont

Anogir iuenctid y fro i gefnogi a mwynhau'r gymdeithas a geir yn "Os Mêts"

Dyddiadur

CHWFROR

14 Bethel 2 Gweinidog
Nasareth 5 Terry Edwards
Rehoboth 2 Bugail (C)
Eglwys Dewi Sant 2.30
Gosber a Chymun
15 C.Ff.I Tal-y-bont: Cystadlu
yng Ngŵyl Ddrama'r Sir
Merched y Wawr: Kate
O'Sullivan

18 Sefydliad y Merched
Tal-y-bont: Mynd i'r Gogledd
Ceiniogau am gyfeillgarwch
19 Clwb Nos Wener: Al Lewis, Y
Llew Du am 8.00

21 Bethel 10 Gweinidog
Nasareth 10 T. J. Irfon Evans
Rehoboth 10 Delyth Morgans
Eglwys Dewi Sant 11 Cymun
Bendigaid

Eglwys St Pedr Bont-goch,
Elerch 2.30 Cymun Bendigiaid
23 C.Ff.I Tal-y-bont: Canlyniadau
Drama

Theatr Bara Caws: Croesi'r
Rubicon, Neuadd Goffa, 7.30
25 Merched y Wawr: Pwyllgor
Rhanbarth

26 Eisteddfod Ysgol Gymunedol
Tal-y-bont

27 Neuadd Goffa Tal-y-bont:
Dathlu Gŵyl Ddewi gyda Mair
Tomas Ifans, Arfon Gwilym a
Sioned Webb

28 Bethel 5 Gweinidog
Nasareth Oedfa'r Ofalaeth:
Gŵyl Ddewi

Rehoboth Oedfa'r Ofalaeth
Eglwys Dewi Sant 9.30 Boreol
Weddi

AR WERTH
OERGELL/RHEWGELL
ZANUSSI.
MEWN CYFLWR
ARDDERCHOG - £30
FFONIWCH 832473

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Bledyn a Delyth gyda Iolo yn dylunio. Golygyddion y rhifyn nesaf fydd Geraint Evans (post @garnwen.org .uk 832473), Geraint Pugh a Sian Evans. Dylai'r deunydd fod yn llaw'r golygydd erbyn dydd Gwener **Mawrth 5ed** a bydd y papur ar werth ddydd Gwener **Mawrth 12fed**.

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



MAWRTH

1 Merched y Wawr: Dathlu Gŵyl
Ddewi yng nghwmni Linda
Griffiths: lluniaueth Siôn Glyn
Eglwys Dewi Sant 10
Cymundeb - croeso i bawb
2 C.Ff.I Tal-y-bont: Noson
Ddramâu yn y Neuadd Goffa

3 C.Ff.I. Tal-y-bont: Hyfforddiant
Barnu Stoc

5 C.Ff.I. Tal-y-bont: Dawns
Dewis Swyddogion

7 Bethel 10 Uno yn Nasareth
Nasareth 10 Richard H. Lewis
Rehoboth 10 Gordon
Macdonald

Eglwys Dewi Sant 2.30 Cymun
Bendigaid

Eglwys St Pedr Bont-goch,
Elerch 2.30 Hwyl Weddi

8 Cyfarfod Blynnyddol Sioe Tal-
y-bont: 8.00 yn y Neuadd Goffa

9 C.Ff.I Tal-y-bont: Trip i ymweld
â Felin Lloyds Feeds

14 Bethel 10 Undebol Noddfa
Nasareth 2 John Tudno
Williams

Rehoboth 5 Bugail (C)
Eglwys Dewi Sant 2.30
Gosber a Chymun

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu eich sefydliad yn dyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont (01970 832438) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Am 10.00 o'r gloch ar fore Dydd Gŵyl Dewi bydd y Parch Brian Thomas, rheithor y plwyf, yn cynnal ei wasanaeth olaf cyn ymddeol yn Eglwys Dewi Sant. Bydd paned a choffi yn dilyn.

Eglwys Bethel
Bore Coffi a Stondinau
Bore Sadwrn 6 Mawrth
Neuadd Goffa Tal-y-bont
10.30 - 12 o'r gloch
Elw at Apêl Haiti

Cyfarfod Blynnyddol
Cymdeithas Sioe
Tal-y-bont
Nos Lun 8 Mawrth
Yn y Neuadd Goffa
Am 8.00 o'r gloch

CROESO CYNNES I BAWB

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn ag Ethel Jenkins, Ynysgreigiog, a'r teulu, ar golli ei thad yn ddiweddar, sef Mr Bill Williams, Clarach, a oedd hefyd yn frawd yng nghyfraith i Eric Roberts, 12 Maes y Deri, Tal-y-bont. Cydymdeimlwn hefyd ag Eirlys Jones, 91 Maes y Deri, ar golli ei chefnider, Meirion Jones o Benrhyn-coch. Yr oedd Meirion yn dipyn o gymeriad ac yn hoffus gan bawb a oedd yn ei adnabod.

Estynnwn ein cydymdeimlad â Martin a Siân Is-y-coed, Taliesin, ar farwolaeth ewythr i Martin yn Ruislip. Hefyd â Mrs Myfanwy Rowlands a gollodd frawd yng nghyfraith, sef gŵr Seri yn Llansamlet. Bu farw tad Peter Trudgill, 7 Maes y Felin, yn 104 oed. Treuliodd dros hanner canrif yn byw yn ardal y Llynnoedd yn Lloegr, ond yr oedd yn hoff o ymweld â Thal-y-bont, ac yr oedd i'w weld yn aml yn mynd am dro.

Dathlu'r deunaw

Llongyfarchiadau i Mathew Davies, 80 Maes y Deri, Tal-y-bont, a fu'n dathlu ei ben-blwydd yn ddeunaw fis Ionawr.

Ennill doethuriaeth

Llongyfarchiadau i Dr Hywel Griffiths, Y Garth, Tal-y-bont, ar ennill ei ddoethuriaeth o Brifysgol Cymru. Mae Dr Griffiths yn ddarlithydd yn Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear Prifysgol Aberystwyth. Teitl ei draethawd yw: 'Deinameg ansefydlogrwydd fertigol ar afonydd Cymru'.

Pasio'r Prawf Gyrru

Llongyfarchiadau i Lefi Jones, Gellimanwydd, ar lwyddo yn ei brawf gyrru yn ddiweddar.

Dyweddïad

Llongyfarchiadau i Catrin Mason a Barry Lewis, Gwêl y Llan, Dôl Pistyll ar eu dyweddïad yn ddiweddar.

Gwesty Jimmy White

Mae un o frodorion Tal-y-bont, a ymsefydlodd yng Ngwlad Thai 11 mlynedd yn ôl, wedi ennill gwobr am yr eildro am sefydlu busnes gwesty sy'n cael ei redeg ganddo ef a'i wraig Lamai. Mae chwaer Jimmy White, sef Ann Moore, yn bartneres yn y busnes, a chan nad oes gan ei brawd gysylltiad â'r we yng Ngwlad Thai, mae

Pobl a Phethe

Te Prynhawn Haiti



Fel rhan o'r ymgyrch fawr ddyngarol fyd-eang i gynorthwyo pobl druenus Haiti sydd wedi dioddef o achos y daeargryn a'u trawodd, fe drefnwyd te prynhawn yn Neuadd Goffa Tal-y-bont ar ddydd Sul 24ain o Ionawr. Yr oedd hwn yn gyfle i bobl yr ardal gyfrannu mewn modd gwahanol i'r arfer. Yn hytrach na chasglu arian o dŷ i dŷ, cafwyd cyfle i fwynhau amrywiaeth helaeth o frechdanau a chaccennau cartref blasus, a chael sgwrs dros banded. Roedd yn braf gweld fod cynifer o bobl yr ardal wedi troi allan i gefnogi. O ganlyniad i'r ymdrech hon casglwyd swm anrhydeddus o £891.93. Llongyfarchiadau i'r trefnwyr ar lwyddiant yr ymdrech, a diolch i bawb a baratodd y bwyd. Dyna ddangos fod y fath beth â chymuned yn bod.

hi'n delio â'r holl archebion ar y wefan o'i chartref hi yn y Borth. Enillwyd Gwobr Twristiaeth Gyfrifol Asia Wyllt gan Jimmy oherwydd ei fod yn cyfrannu i'r economi yn lleol ac yn cynnal y safonau uchaf yn y gwesty. Ceir mwy o fanylion am y gwesty ar y wefan: www.thailandhomestay.com

Sefydliad y Merched Eglwys-fach

Cafwyd noson ddiddorol a doniol yng nghwmni Mark Williams AS ar 1 Chwefror. Y pwnc oedd 'Fy mywyd yn Westminster'. Braf oedd gweld y stafell yn llawn, ac yr oedd nifer o'r gwŷr yno hefyd yn ogystal â ffrindiau o Sefydliad y Merched Taliesin. Bydd ein cwrdd nesaf ar Fawrth 1af, ein noson Gŵyl Ddewi pan fydd Richard Hartnup yn siarad am arfordir Ceredigion.

O Wimbledon i'r Lolfa

Mae'r Lolfa newydd benodi Eirian Jones o Langeitho fel Golygydd Saesneg y cwmni. Mae Eirian yn wyneb cyfarwydd ar gyrtiau tenis Wimbledon lle mae wedi bod yn cadw trefn ar rai o fawrion y

byd tenis fel dyfarnwraig. Yn ddiweddar enillodd radd uwch am astudio gwaith y bardd gwlad B.T. Hopkins ac mae eisoes wedi cyhoeddi cyfrol gyda'r Lolfa ar hanes Rhyfel y Sais Bach.

Gwellhad Buan

Anfonwn ein cofion at Mrs Mary Powell, Stryd y Capel, Taliesin, sydd yn awr wedi dod adref o Ysbyty Bronglais.

Traws gwlad

Pob gymuniad da i George Lithgow, Hafod Elerch, Bont-goch a fydd yn cystadlu dros Ysgol Penrhyn-coch ym mhencampwriaethau traws gwlad Cymru a gynhelir ym Mharc Singleton, Abertawe ar ddydd Sadwrn 20 Chwefror.

Eira mawr

Fe effeithiodd yr eira mawr gryn dipyn ar drigolion Bont-goch, ond bu pawb yn gymdogol iawn drwy helpu gyda chludiant, siopa, taro heibio'r henoed a llwyddwyd hefyd i achub ambell un a aeth i drafferthion ar y 'cufen'! Mae'n dda gweld

ysbryd cymunedol mor gryf yn bodoli yn y pentref a phawb mor barod eu cymorth ar adeg o argyfwng. Diolch arbennig hefyd i ffermwyr yr ardal am eu cymorth i glirio'r ffordd, ac i berchnogion cerbydau gyriant pedair olwyn am fod mor barod eu cymwynas.

Seren Michelin

Yn ystod mis Ionawr cyhoeddwyd bod un o wobrau mwyaf anrhydeddus y byd bwyd a choginio wedi ei dyfarnu i westy Ynys-hir, Eglwys-fach. Yr oedd y gwesty yn un o dri o fwyta Cymru i ennill seren Michelin eleni. Yn ôl y perchennog, Joan Rean, y mae'r wobr hon yn ei boddhau'n fawr, ac mae'n gryn glod i'r cogydd Shane Hughes. Dyna'r trydydd tro i'r gwesty dderbyn seren Michelin. Enillodd ei seren gynhaf ddegawd yn ôl. Un o gryfderau'r fwydlen yn Ynys-hir yw ei bod yn cynnwys llawer o gynnyrch lleol, megis cimwch ffres, cig oen ac eidion Cymreig, a chig hwyaden a chyw iâr organig.

Clwb Pêl-droed Trefeurig (1848-1953)

Mae gohebydd *Papur Pawb* yn Bont-goch (Richard Huws) yn ceisio casglu hanes Clwb Pêl-droed Trefeurig, tîm a fu'n chwarae yng nghynghrair Aberystwyth a'r Cylch am bum mlynedd rhwng 1948-53. Mae Richard wedi casglu enwau dros 70 o gyn-chwaraewyr, yn cynnwys nifer o drigolion ardal *Papur Pawb*. Byddai'n falch o glywed gan unrhyw un sydd â gwybodaeth am yr unigolion yma, neu os oes gennych atgofion neu luniau perthnasol. Gobeithir medru cyhoeddi llyfryn byr maes o law. Ceir ei fanylion cyswllt ar dudalen 2 *Papur Pawb*, neu gellir ei e-bostio ar rehuws@aol.com

Clwb Cerdd Machynlleth

Cyngerdd yn y Tabernacl, Machynlleth
Cerys Jones (ffidil) & Llŷr Williams (piano)
Nos Wener, 26 Chwefror
am 7.30pm
Tocynnau - £9
Cyfle i glywed artistiaid rhyngwladol

Nofel gan awdures leol



Mae Mared Llwyd, a ddaw yn wreiddiol o Langwryfion ond sydd bellach yn byw yn Nhaliesin, ac sy'n athrawes yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth, wedi cyhoeddi ei nofel gyntaf, *Aderyn Brau*. Nofel yw hi wedi ei hanelu at ddarllenwyr rhwng 9 a 13 oed. Esther Llwyd Ifan a fu'n ei darllen a dyma'i hadolygiad:

'Mae'r stori am ferch yn ei harddegau cynnar yn symud o bentref gwledig Llanfair i ddinas fawr Abertawe at ei mam-gu. Mae bywyd Megan James, 11 oed, yn dechrau chwalu wrth i'w thad adael hi a'i mam yn ddirybudd. Mae Mared Llwyd yn adrodd y stori mewn iaith sy'n darllen yn rhwydd. Gan ei bod yn darlunio byd pobl ifanc mae'n defnyddio geirfa gyfoes sy'n apelio at yr arddegau. Mae'r stori hefyd yn nhafodiaith Abertawe, sy'n gwneud y cymeriadau yn fwy real.

Mae hon yn stori emosynol a llawn tensiwn wrth i Megan geisio dygymod â'i bywyd newydd. 'Dyw gwneud ffrindiau newydd ddim yn hawdd iddi ond mae hi'n ceisio'i gorau glas i ymgartrefu yn ei hysgol newydd. Mae'r stori ar adegau yn drist iawn ac mae'n rhaid i fi gyfaddef i fi lefain fwy nag unwaith!

Mae'r awdures yn chwarae ar emosionau'r darllenwydd yn effeithiol iawn. Mae'r stori yn datblygu o fod yn dorcalonnus ar y dechrau, pan mae Megan yn gweld eisiau ei thad, i fod yn fwy gobeithiol ar y diwedd. Heb ddatgelu gormod, mae Megan yn dod yn dipyn o ffrindiau gyda'r dyn drws nesa, ac mae e'n ei helpu i ddelio â'i sefyllfa. Daw fflach o hapusrwydd yn y diwedd glo.

Mae hon yn nofel wych a doedd dim posib ei rhoi i lawr am gyfnod hir. Llongyfarchiadau mawr i Mared ar ei nofel gyntaf. Dwi'n gobeithio'n fawr fod nofel arall ar y gweill!'

Cofnod amhrisiadwy ar ffilm



Yn y llun gwelir Dai Jones, Llywydd Sioe'r Cardis yng nghwmni Sheila Talbot, merch Edgar Humphreys, a Gwilym Jenkins. Bu'r ddwy noson a gafwyd i ddangos ffilm fideo o Gwilym Jenkins yn holi'r diweddar Edgar Humphreys yn llwyddiant ysgubol. Yr oedd pawb a fu'n ei gwyllo yn rhyfeddu at gof aruthrol un o fugeiliaid olaf Pumlumon a oedd yn adnabod yr ucheldir fel cefn ei law. Mae'r ffilm yn ddogfen bwysig sy'n cofnodi ffordd o fyw sydd wedi hen ddiflannu. Llwyddwyd i godi dros £900 tuag at noddi Sioe'r Cardis yn Llanellwedd eleni.

Tir Glas Parsel Henllys



O'r chwith i'r dde, Dylan Morgan, Gerald Watkins a Geraint Jenkins.

Testun balchder yw fod tri o amaethwyr lleol wedi dod i'r brig mewn tri chategori gwahanol yng nghystadlaeth Cymdeithas Tir Glas Gogledd Ceredigion am 2009-2010.

Gerald Watkins, Henllys, a enillodd y cwpan am gynhyrchu'r silwair clamp gorau, a bydd ef yn awr yn mynd yn ei flaen i gynrychioli'r sir yng nghystadlaeth Cymru. Geraint Jenkins o Gerrigyranau a enillodd y cwpan am gynhyrchu'r silwair gorau mewn byrnau mawr, a Dylan Morgan, Alltgoch, a gipiodd y cwpan fel y cynhyrchwr cig eidion gorau. Dyna ddangos nid yn unig fod ansawdd y tir ym Mharsel Henllys o'r safon uchaf, ond bod ansawdd yr amaethu yno hefyd yn arbennig o uchel.

Apêl yr Urdd



Mae Cronfa Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010, sydd i'w chynnal yn Llanerchaeron ar ddiwedd Mai a dechrau Mehefin, wedi cael hwb sylweddol yn sgil cefnogaeth o £5000 gan gwmni SSE (*Airtricity* gynt) gyda'r arian yn cael ei rannu yn gyfartal rhwng Pwyllgorau Apêl Ceulanmaesmawr, Melindwr/Blaenrheidol a Threfeurig. Dyma'r tro cyntaf i SSE gefnogi Eisteddfod yr Urdd ac yn ôl Deian Creunant, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod, mae'r ffaith fod un o'r prif ddatblygwyr yn y sector ynni adnewyddol yn awyddus i fuddsoddi mewn gweithgaredd pobol ifanc yn argoeli'n dda ar gyfer dyfodol Prifwyl yr Urdd. "Mae'n arwydd pellach o bwysigrwydd mudiad yr Urdd," meddai.

Yn y llun gwelir Eluned Lewis, Swyddog Cyswllt Cymunedol SSE, Deian Creunant, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod 2010 a'r Cyng. Ellen ap Gwynn, Cadeirydd Pwyllgor Apêl Ceulanmaesmawr

O'r Cynulliad – Elin Jones AC



Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae nifer o berchnogion busnesau lleol wedi bod mewn cysylltiad â mi ynghylch y cynnydd yn eu trethi busnes o fis Ebrill ymlaen. Daw hyn o ganlyniad i'r broses o ailbrisio adeiladau busnes yng Nghymru a Lloegr sydd wedi bod yn digwydd yn ddiweddar. Tra bydd rhai busnesau yn gweld gostyngiad yn y trethi busnes sydd angen iddynt dalu, mae'n debyg mai cynnydd mawr yn y trethi sy'n wynebu'r mwyafrif o fusnesau lleol.

Yn anffodus, nid yw'r broses o ailbrisio adeiladau busnes yn fater sydd wedi ei ddatganoli. Fodd bynnag, rwy'n falch iawn fod y Gweinidog dros Lywodraeth Leol wedi cyhoeddi cyn y Nadolig y bydd y trothwyon i fusnesau bach fod yn gymwys i gael cymorth tuag at dalu eu trethu busnes yn codi 20 y cant. Er fy mod yn ymwybodol na fydd hyn yn datrys yr holl broblemau sy'n wynebu busnesau lleol o ganlyniad i'r ailbrisio, mae'r cyhoeddiad yn dangos bod Llywodraeth y Cynulliad yn ymwybodol o'r broblem.

Yn ddiweddar, fe fynychodd Ymgeisydd Seneddol y Blaid yng Ngheredigion, Penri James, a finnau fore coffi yn Aberteifi i nodi dechrau blwyddyn o ddathliadau i nodi pen-blwydd y dref yn 900 oed. Rwy'n gwybod bod trigolion Aberteifi wedi bod wrthi'n paratoi ar gyfer 2010 ers nifer o fisoedd ac rwy'n edrych ymlaen at fynychu digwyddiadau eraill yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Yn olaf, rwyf wedi mynychu dau gyfarfod o'r Fforymau 50+ sy'n cael eu cynnal yng Ngheredigion. Wrth fynychu cyfarfod o Fforwm Sarn Helen yn Nhregaron cyn y Nadolig, ac yna Fforwm Ystrad Fflur ym Mhontrhydfendigaid yn fwy diweddar, roeddwn yn falch iawn o weld cynifer o bobl yn dod at ei gilydd i gymdeithasu a hoffwn ddiolch am y croeso cynnes a dderbyniais.

S. F. BYRNE
Adeiladwr a Saer Maen

Ffôn: 01970 832068
M: 077626 20309
Gwneir pob math o waith

Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN

Pencefen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 - 07721 786292

GOLYGYDDOL

Diolch yn fawr i Gwilym Jenkins am ei lythyr i'r papur y mis hwn. Llythyr amserol sy'n tynnu sylw at sefyllfa hynod o drist. Gofid i amryw ohonom erbyn hyn yw sylweddoli fod yr iaith yn un o'i chadarnleoedd ar drai. Dim ond ichwi glustfeinio ar blant y ddwy ysgol gynradd sydd yn nalgylch *Papur Pawb* yn parhau ar y buarth ac fe glywch pa mor brin yw'r Gymraeg. Nid na all y plant siarad yr iaith, ond bod y fantol bellach wedi troi o blaid y Saesneg fel mai dewis iaith gyfathrebu trwy y plant wrth chwarae yw'r iaith fain. Mae'n amlwg nad yw cael y Gymraeg fel prif gyfrwng dysgu yn y dosbarth yn ddigon i sicrhau ei pharhad fel iaith y gymuned. Mae hwn yn batrwm ymddygiad a welir trwy Gymru gyfan, gwaetha'r modd. A ellir gwneud mwy tybed i atal y Seisnigo hwn, ac i geisio troi iaith chwarae ac iaith siarad cyfoedion â'i gilydd yn Gymraeg? Dyletswydd y rhieni a'r athrawon, a phob oedolyn a ddaw i gysylltiad â'r plant, yw mynnu troi pob sgwrs i'r Gymraeg. Mae cyfrifioldeb ar bawb ohonom i wneud yr iaith mor glywadwy ac mor weladwy â phosibl o fewn ein cymuned.

Mae'r sefyllfa y cyfeiria Gwilym ati yn tanlinellu pa mor fregus yw'r Gymraeg yn yr ardal hon erbyn hyn. Mae lle gwirioneddol i bryderu ynghylch goblygiadau bwriad Cyngor Sir Ceredigion i wneud Tal-y-bont yn bentref twf o dan y Cynllun Datblygu Unedol newydd. Byddai codi mwy o stadau tai a pheri bod y pentref yn tyfu ar raddfa fawr yn gyflym yn siŵr o arwain at wanhau sefyllfa'r iaith ymhellach. Dyna paham y bydd yn rhaid i ddiogelwch y Gymraeg fel iaith y gymuned gael blaenoriaeth pan ddaw'n fater o ystyried unrhyw gynlluniau datblygu sydd gan y Cyngor Sir.

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

**CODI Tŷ NEU
ESTYNIAD?**

Iwan Jones, Technegydd Pensaernïol
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
01970 832760

Llythyr - O'r Fath Siom!

Llety'r Bugail,

Tal-y-bont.

Peth dieithr iawn heddi' yw gweld a chlywed plant allan yn yr awyr agored yn chwarae. Beth sydd wedi digwydd? Ond braf iawn oedd eu gweld ddechrau'r flwyddyn yma pan ddaeth yr eira, pob un yn anelu am y llethrau, a chwarae teg, bron pob un yn parchu rheolau cefn gwlad trwy agor y llidiardau i'r llethrau a'u cau yn ofalus ar eu hól a phob un yn cario sled. Cawsant brynhawn wrth eu bodd a barnu wrth y sgrechian a'r chwerthin oedd ganddynt. Gwelais lawer un yn cael codwm gas, a llawer i gnoc go eger. 'Rwy'n siŵr bod sawl clais drannoeth. Cawsant brynhawn o ymarfer corff caled, heb iddynt sylweddoli hynny, a phob un yn wlyb domen cyn pen awr.

Ond o'r fath siom a gefais pan ddeallais mai trwy'r iaith Saesneg yr oeddynt yn chwarae, a minnau'n gwybod fod pob un yn medru'r iaith Gymraeg yn iawn. Dim ond un parti bach o ferched glywais i'n defnyddio'r iaith Gymraeg i chwarae, chwarae teg iddynt hwy. Ni freuddwydiais erioed y

clywn hyn ym mhentref Talybont o bob man. Mor wahanol oedd hi pan ddaeth yr ifaciwis i aros yn y pentref tra bu'r rhyfel ar gered. Aethant hwy yn ôl i Lerpwl bron bob un yn hollol ddwyieithog.

Yr oeddwn i, cyn y prynhawn hwn, yn ffyddiog iawn fod Cymru'n mynd i fod yn Gymru ddwyieithog heb fod yn hir. 'Roedd newyddion da i'w clywed bob dydd fod rhieni Cymru'n mynnu addysg Gymraeg i'w plant, a bod ysgol Gymraeg yn agor yn rhywle o hyd. Pa werth yw hyn os yw ein plant yn gwrthod ei siarad ymysg ei gilydd wrth chwarae? A gaf i annog y plant a welais i yn chwarae yn yr eira, yn garedig iawn, i warchod eich mamiaith i'r eithaf, ac i'w siarad hi gyda balchder bob tro y cewch chi gyfle? Mae'r cyfrifioldeb yn fawr arnoch. Chwi fydd rhieni'r dyfodol yn fuan iawn.

Gwilym Jenkins
(Gweler sylwadau'r Golygydd uchod)

RAS DYDD GWYL DEWI
YK MEWN GWISG CYMRIG
WELSH LADY FUN RUN
FFURFLEN GOFRESTRU

urdd.org

28.2.2010 @ 10am **Bandstand, Aberystwyth**

Enw : _____

Cyfeiriad : _____

Oed: _____

Cofnodi (rhochw eich llythrennau blaen yn erbyn eich categori) :

Ras ysgolion cynradd: _____

Ras ysgolion uwchradd: _____

Ras 3K oedolion: _____

Ysgol gynrychiolwyd: _____

Tâl Cofrestru

Cyn 28.2.2010: £3 Oedolion £2.00 Myfyrwyr & Pensynwyr £1 Plant

Ar ôl 28.2.2010: £5 Oedolion £3.50 Myfyrwyr & Pensynwyr £2 Plant

Dychweler y ffurflen gofrestru ynghyd â'r tâl i:

**Menter Aberystwyth,
 Penbryn,
 Prifysgol Aberystwyth,
 Campws Penglais,
 Aberystwyth. SY23 3BY**

Elusen : Urdd Gobaith Cymru Eisteddfod Ceredigion 2010

 Cynllun Arochysylltu Ewrop ar gyfer
 Ddwylo Gwlad, Ewrop yn Bwllodd
 mewn Arochysylltu Gwlad
 The European Agricultural Fund for
 Rural Development Europe Investing in
 Rural Areas

 Uywodaeth Cynullad Cymru
 Welsh Assembly Government

 Rhwydwrdd Ddiwydiol Ddiwydiol Ceredigion
 Ceredigion Rural Events Programme

Rhian
 trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
 gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
 ffôn 832 612
 07835 525 553

ANGEN
 Anifeiliaid Tew
 (i'w lladd mewn
 lladd-dy lleol)

Cysylltwch â Tegwyn Lewis
 Capel Bangor 880627

Ras Dydd Gŵyl Ddewi

Ydych chi'n cofio'r cyntaf o Fawrth 2009 ar y Prom yn Aberystwyth? Nac ydych?

Wel, yn 2010 ar yr 28ain o Chwefror mi fyddwn yn ailgynnal Ras Dydd Gŵyl Ddewi. Ras Hwyl yw hon sy'n cael ei threfnu yn flynyddol i ddathlu dydd ein nawddsant ar Fawrth y cyntaf. Bwriad y diwrnod yw cael pawb o'r ieuengaf i'r hynaf i wisgo eu gwisg Gymreig ac yna rhedeg ras hwyl 3 cilometr (pellter llai i ddisgyblion cynradd).

Y llynedd, BB Aled o Radio 1 oedd y gŵr gwadd, ond eleni cyn-aelodau tŷ y Brawd Mawr, Nikki Grahame a Glyn Wise fydd yn cael eu croesawu i Aberystwyth ac yn rhedeg yn ein plith!

Yn ogystal â'r ras mi fydd yna gyfle ichi brynu nwyddau a chynnyrch Cymreig yn ein marchnad a gweld arddangosfa dawnsio gwerin. Mi fydd cawl am ddim i bob cystadleuydd hefyd. Yn ystod mis Chwefror mi fydd pêl-droed wedi ei llofnodi gan dîm Cymru yng ngêm ddiwethaf Ryan Giggs dros ei wlad yn cael ei rhoi ar ocsiwn drwy gyfrwng y *Cambrian News*! Mae yna hefyd Raffl Fawr sydd ar werth ar hyn o bryd gyda'r wobr yn 10% o werthiant y raffl!

Elusen y ras eleni yw Urdd Gobaith Cymru Eisteddfod Ceredigion 2010 gan y bydd yr ŵyl yn cael ei chynnal yn ein sir ni ym mis Mai.

Os ydych am gymryd rhan, anfonwch y ffurflen gyferbyn ynghyd â'r tâl i Gwennan Davies, Menter Aberystwyth, Penbryn, Prifysgol Aberystwyth, Aberystwyth SY23 3BY neu ffoniwch 01970 628 725 am fwy o wybodaeth a ffurflen nawdd.

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
 07761 917235

Afiaith

Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
 Prydlon • Personol

Martin Davis
 Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
 Powys SY20 8JG Cymru
 Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Enillydd 'Ble yn y Byd?' Mis Ionawr
Joan Jones 11 Caer'r Odyn Bow Street
Ateb: ar y ffordd fawr ger yr Odyn Fach

Ble yn y byd?

Sut i chwarae

Ble yn nalgylch Papur Pawb mae'r llun yma wedi cael ei dynnu?

Ateb

Enw

Cyfeiriad


Côd Post

Rhif Ffôn

Atebion: i Geraint Evans, Garnwen, Tal-y-bont, SY24 5EY
 erbyn Mawrth 5ed

Gwobr: Tocyn Llyfr £10

i'r ateb cywir cyntaf allan o'r het



Datrys Dirgelwch y Cerdyn Post

Mae cerdyn post ac arno lun a dynnwyd yng nghanaf Sioe Tal-y-bont ym meddiant Mrs Kathleen Richards, ond nid oes dim ar y cerdyn i nodi'r union flwyddyn y tynnwyd y llun gwreiddiol. Trwy gymorth gwaith ditectif Hefin Llwyd a Dr Wynne Davies, Meisgyn, llwyddwyd i ganfod y flwyddyn. Hefin Llwyd i ddechrau sy'n esbonio ei ymchwiliad ef:

'Dyddiad y llythyrnod ar y cerdyn post yw Jan 22nd, ac fe'i postiwyd ar ddydd Mawrth am 6pm. Gan nad oes blwyddyn ar y llythyrnod rhaid edrych ar y stamp ei hun. Fe gostiodd hwnnw ½ ceiniog ac arno mae llun y brenin Siôr V. Bu hwnnw ar yr orsedd rhwng 6 Mai 1910 a 20 Ionawr 1936. Ar gefn y cerdyn ysgrifennwyd y canlynol: "Jan 22nd. I hope you can spare me 3 or 4 lb this week. Mis Davies ffosygravel is to be buried on Thursday. E.J.", ac fe'i cyfeiriwyd at Mrs Jones, Elgar Farm, Llandre.


Bu Miss Margaretta Davies, Ffosygrafel Isaf farw ddydd Llun, 21 Ionawr 1918 yn 81 mlwydd oed (y diwrnod cyn anfon y cerdyn). Fe'i claddwyd ddydd Iau, 24 Ionawr 1918 ym mynwent newydd Eglwys Llanfihangel Genau'r Glyn (yr ochr isaf i'r ffordd), yn rhes waelod y rhan ganol. Roedd hi'n ferch i Morris Davies (1800-1858) a'i wraig Esther (1812-1875), Ffosygrafel Isaf.

David Jones (1874-1938) a'i wraig Mary Jane (1875-1962) oedd yn byw yn Fferm Elgar yn 1918 pan anfonwyd y cerdyn post at Mrs Jones. Ni chynhaliwyd Sioe Amaethyddol yn Nhal-y-bont yn 1917 ac 1918 oherwydd y Rhyfel Mawr. Daeth consgripsiwn i rym yn 1916, a chollwyd nifer fawr o ddynion ar faes y gad. Mae'r cerdyn post, felly, yn dyddio i 1916 neu ynghynt. Ond os edrychir yn fanwl gellir gweld yr Hen Eglwys Haearn (ar safle Henllan) yn y cefndir.

Yn yr *Aberystwyth Observer*, 15 Chwefror 1913, ceir hysbyseb gwerthiant yr Hen Eglwys fel a ganlyn: "*Talybont – Sale by private treaty. A disused building of corrugated iron, in a good state of preservation, measuring 48 feet long by 20 feet wide, with sides and roof lined with timber – Apply Vicar, Llanfihangel, Borth.*"

Os gwerthwyd yr Hen Eglwys Haearn yn 1913, yna mae'n rhaid bod y llun wedi ei dynnu yn sioe y flwyddyn honno neu ynghynt na 1913. Mae'r ddau fachgen ifanc gyda'r trowsusau pen-glin yn awgrymu mai bechgyn ysgol oeddynt tua 14 oed neu iau.'

Ar ôl iddo sganio'r cerdyn ar gyfrifiadur, llwyddodd Dr Wynne Davies i chwyddo'r llun a chanfod rhif ar y darn



papur sydd ar ben y ceffyl sy'n cadarnhau mai 1913 yw'r flwyddyn. Yn ychwanegol at hynny, llwyddwyd i ganfod mai'r bachgen sy'n dal pen y ceffyl yw William Jones Williams, Cynnull Mawr, sef ewythr i Hywel Cynnull Mawr ac Evan Evans Tynrhelyg.

A dyna sut y datryswyd y dirgelwch. Ond mae peth gwybodaeth yn eisiau. Os oes unrhyw un o'n darllenwyr yn gallu cynnig enwau'r bobl eraill sydd yn y llun, byddem yn falch o glywed.



Fferm wynt Nant y Moch – a chi

Mae cwmni SSE Renewables (Airticity gynt) yn gobeithio datblygu fferm wynt Nant y Moch rhwng Tal-y-bont a'r argae.

Rydym ni ar hyn o bryd yn gwneud gwaith ymgynghori mawr i roi gwybod i chi beth yn union yw ein cynlluniau ac yn awyddus i gael trafodaeth agored, onest a llawn a dyna pam ein bod wedi:

- Cynnal arddangosfeydd cyhoeddus.
- Penodi sawldog cyswllt cymunedol yn benodol at y gwaith.
- Creu gwefan arbennig gyda newyddion a gwybodaeth.
- Creu grŵp cyswllt lleol.
- Rhed gwybod am ein cynlluniau yn y cyfngau lleol.

A dyna pam y byddwn yn cynnal rhagor o arddangosfeydd cyhoeddus yn hwyrach eleni, gan gynnwys:

- Y bwriad yw codi fferm wynt a all gynhyrchu rhwng 140 a 170 MW o drydan - sy'n gwerth a dellydd trydan tua 65,000 o dai. Rydym yn amcangyfrif y bydd disgyn o wynt ar y safle i'r fferm fedru cynhyrchu am 70-85% o'r amser.
- Bydd hynni'n golygu llai o gynhyrchu trydan trwy losgi tanwydd fel glo - mae ynni gwyn yn ffordd o osodw lefelau carbon ac o wneud yn siŋer fod gyda ni sicrwydd ynni... ein bod ni'n gorfod dibynnu llai ar wledydd eraill.
- Mae Nant y Moch yr union fath o gynllun sydd ei angen i gyrraedd y ddau nod.
- Bydd Ceredigion gam yn nes at gynhyrchu cymaint o drydan ag y mae ni ei ddelfnyddio.

Am ragor o wybodaeth, ewch i www.fermwyntnantymoch.com

Yn falch o weithio mewn partneriaeth gyda Eisteddfod yr Urdd, Ceredigion 2010.

Safleddfa Cofrestrwyd SSE Renewables Development L&C Cylf yw: 20 Llaner, 85-85 Great Victoria Street, Belfast, BT2 7AF Northern Ireland. Colliwngwyd yng Nghyngor yr Iwerddon Rhif N0043296.

Y GARREG FILLTIR

Mae'r ateb i Ble yn y Byd? mis Chwefror mewn man arall yn y papur ond cawsom hanesyn diddorol am y garreg filltir gan Brenda Jeeves, Llys y Coed, Taliesin. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd symudodd teulu Mrs Jeeves o Lundain i'r Olyn Fach ar y ffordd allan o Dal-y-bont. Yn ferch ifanc ddeuddeng mlwydd oed mae Brenda yn cofio sefyll wrth y garreg filltir gyda'i chwaer Myra. Y flwyddyn oedd 1944 ac mae Brenda'n dwyn i gof yr olygfa o'r *convoys* Americanaidd yn mynd heibio ar eu taith hir i arfordir De Lloegr. Roedd y milwyr yn mynd i gymryd rhan yn y '*Normandy Landings*', sef ymosodiad y gynghrair Brydeinig-Americanaidd ar draethau gogledd Ffrainc. Cychwynnodd yr ymosodiad am hanner awr wedi chwech ar y 6ed o Fehefin 1944 (D-Day). Yr hyn sydd wedi aros ar gof Brenda yw iddi weiddi '*any gum chum*' wrth i lorïau'r Americanwyr basio. A do, fe gafodd rai!

Melinau Gwynt o dan Bumlumon?

Am 7.30 nos Fercher 17fed Chwefror mae Cymdeithas Mynyddoedd y Cambria wedi trefnu cyfarfod cyhoeddus yn Neuadd Goffa Tal-y-bont ac mae cysaro i bawb ddod. Bwriad y cyfarfod yw ystyried y cynllun i adeiladu tua 80 o felinau gwynt o dan Bumlumon yn ymestyn o Graig y Pistyll draw i Gwm Einion, a hefyd yn cynnwys ardal Nant-y-moch. Bydd angen cydbwyso gwerth y melinau yn erbyn gwerth tirlun ardal Pumlumon a bydd cyfle i'r rhai a fydd yn bresennol fynegi eu barn. Cadeirir y cyfarfod gan Mark Williams, Aelod Seneddol Ceredigion.

John Morgan.



Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

Siop y Pethe
Aberystwyth
Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

STORFA CANOLBARTH CYMRU

Mid Wales Self Storage Centre

- STORIWC'H E' • RHOWCH DAN GLO •
- CADWCH Y GORIAD •



STORFA
GARTREF

- DIOGELWCH
BT REDCARE
24 AWR



STORFA FUSNES

- CCTV



STORFA I
FYFYRWYR

- WEDI'I GYNHESU
- CIWBICLAU £10 yr
wythnos (250
ciwb)



PACEDU

- ARCHIFAU

01654 703592

Heol y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
www.midwalesstorage.co.uk



**Theatr
Genedlaethol
Cymru**

yn cyflwyno

Y Gofalwr, gan Harold Pinter

Cyfieithiad i'r Gymraeg gan Elis Gwyn

The Caretaker oedd y gyntaf o ddramâu Pinter i lwyddo'n artistig a masnachol
gyda'r canlyniad o'i wneud yn enw cyfarwydd trwy Brydain.

Trwy ddilyn stori dau frawd a thrempyn, mae Y Gofalwr yn ymdrin â'r pellter
rhwng realaeth a ffantasi, perthynas teulu, a'r ymdrechion am bŵer.

05-06 Mawrth 2010

yn

Canolfan Y Celfyddydau Aberystwyth

I archebu tocynnau cysylltwch â 01970 623232

I gael gwybodaeth am weddill taith Y Gofalwr, ewch i

www.theatr.com

Dathlu! Dathlu!

Bydd Merched y Wawr Rhydpennau
yn dathlu pen-blwydd y gangen yn ddeugain oed
gyda chinio yng Nghlwb Golff y Borth
ar nos Lun, 8 Mawrth 2010.

Croeso i gyn-aelodau ymuno â ni.
Cysylltwch â Brenda Jones (01970) 828887
neu Gwenda Edwards (01970) 828350

Ardwyn

Na, nid yr ysgol, ond
Cantorion Ardwyn! Côr o
Gaerdydd ydyw sy'n dod i roi
cyngerdd yn Neuadd Fawr y
Celfyddydau yn Aberystwyth
am 3.00 o'r gloch pŵn Sul,
7 Mawrth. Mae gan y côr hwn
ddau gysylltiad ag Aberystwyth
drwy ddau o'r arweinyddion. Y
gyn-arweinyddes oedd Helena
Braithwaite, chwaer y
diweddar Haydn Davies oedd
yn byw yn Dan-y-coed ac yn
arolygwr cerdd dros ysgolion
Cymru. Yr arweinydd
presennol yw David Leggett
sydd wedi ei fagu yn Dole ac
yn gyn-disgybl o Ysgol
Penweddig. Mae David bellach
yn athro cerdd yng
Nghaerdydd.

Ffurfiwyd y côr yn 1964 a
gwyddom am amryw o
drigolion Aber sydd wedi canu
gyda'r côr yn y gorffennol. Mae
arweinyddion mawr wedi cael
y fraint o arwain y côr, e.e.
Owain Arwel Hughes, Syr
Colin Davies, Syr Andrew
Davies, Tadaaki Otaka, a
chantorion fel Bryn Terfel,
Rebecca Evans a Luciano
Pavarotti wedi bod yn
unawdwy.

Mae'r côr wedi recordio
amryw o CDs, wedi
ymddangos ar y teledu a'r
radio, ac wedi teithio yn Ewrop
a'r Unol Daleithiau. Edrychwn
ymlaen at eich croesawu yn y
Neuadd Fawr. Dewch i
gefngi'r côr – byddwch yn
siŵr o fwynhau'r cyngerdd.

Os am dacs neu fws mini

**CAMBRIAN
CABS**

Teithiau Pell ac Agos

01970 626292

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu
gwasaeth fframio dychmygus
o'r safon uchaf.

Cewch ddewis o amrediad eang o
siapiau gosod a fframiau.

Bydd y fframdy'n gallu darparu ar
gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth,
Ceredigion SY24 5JA

Ffôn: 01970 871042

Symudol: 07773 846659

Ysgol G

Trafferth gyda'r tywydd oer!

Bu'r ysgol ar gau ar
ddechrau'r tymor oherwydd
y tywydd garw. Yn gyntaf
oherwydd yr eira, ac yna
oherwydd trafferth efo'r dŵr
a'r gwres. Fe wnaeth y
disgyblion fwynhau'r gwyliu
ychwanegol.

Croeso

Croeso cynnes i Miss Laura
Davies sydd yma yn gwneud
ei hymarfer dysgu yn
nosbarth Mrs Nelmes a'r
Cyfnod Sylfaen. Mae'n
teithio yn ddyddiol o
Lanegryn, ger Tywyn.
Gobeithio y bydd hi'n
mwynhau ei phrofiad yma
efo ni.

Pêl rwyd

Bu'r tîm pêl rwyd yn
cystadlu yn nhwrnamaint yr
Urdd yn ddiweddar. Er i'r
tîm golli pob gêm, fe gafodd
pawb hwyl a sbri yn ysbryd y
cystadlu.

Ysgol G

Darlith Wyddonol

Cafodd plant Dosbarth 4 eu
gwahodd i Ddarlith
Flynyddol yr Adran
Wyddoniaeth ym Mhrifysgol
Aberystwyth ar ddiwedd mis
Ionawr. Roedd clywed y
ffeithiau newydd yn
ddiddorol iawn ac roedd
gweld rhai o'r arbrofion yn
dipyn o hwyl. Diolch am y
cyfle o gael mynd i'r ddarlith
eto eleni.

Bagiau dillad a defnydd

Ar ran y Gymdeithas Rhieni
ac Athrawon hoffai'r ysgol
ddiolch i bawb am gyfrannu
dillad ac esgidiau ar gyfer y
cynllun BAGS 2 SCHOOL.
Casglwyd 84 cwdyn ac
edrychwn ymlaen at weld yr
un gefnogaeth i'r ail gasgliad
a fydd yn ystod Tymor yr
Haf.

Eisteddfod yr Ysgol

Cofiwch y bydd Eisteddfod yr
Ysgol yn cael ei chynnal yn y

ol Gynradd Llangynfelyn

Nofio Cenedlaethol

Llongyfarchiadau mawr i Nansi Dingle, Teilo Courtier Lilley a Meave Courtier Lilley, disgyblion o'r ysgol a gynrychiolodd y Sir yn nhwrmaint Nofio Cenedlaethol yr Urdd yn ddiweddar. Fe wnaeth y tri ohonynt nofio yn arbennig o dda, ac rydym yn falch iawn eu bod wedi llwyddo i gyrraedd y rownd derfynol. Da iawn chi.

Gymnasteg

Bu dau dim yn cystadlu yn nhwrmaint Gymnasteg yr Urdd yn Aberystwyth yn ddiweddar. Gwnaeth y ddau dim yn dda iawn, efo Llangynfelyn 2 yn dod yn ail a Llangynfelyn 1 yn cipio'r wobr gyntaf. Fe fydd tîm Llangynfelyn 1 yn awr yn cynrychioli'r Sir yn nhwrmaint Cenedlaethol yr Urdd yn Aberystwyth ar y 10fed o Chwefror. Pob llwyddiant i'r tîm ac rydym

yn falch iawn ohonoch. Diolch i Jenny Dingle am roi o'i hamser i hyfforddi y ddau dim.

Gweithdy a Phanto bwyta'n iach

Cawsom wledd yn yr ysgol yn ddiweddar pan ddaeth yr Asiantaeth Fwyd i'r ysgol i gynnal panto a gweithdy ar fwyta'n iach. Bu llond neuadd o chwerthin wrth i'r actorion ddiddanu'r disgyblion i gyd a'u dysgu am fwyta'n iach a diogelwch bwyd.

Cerdded o gwmpas Tre'r Ddôl

Fel rhan o'r dysgu am deithio aeth plant dosbarth Mrs Nemes am dro o gwmpas Tre'r Ddôl. Gwelon nhw wyn bach yng nghaeau Fferm Dôl Cletwr ac edrychon nhw ar y gwahanol arwyddion ffordd a'r gwahanol adeiladau. Roedd hi'n fore oer iawn ac roedd pawb yn falch o gyrraedd yn ôl i'r ysgol.



Y teithwyr llon ar daith oll yn eu cotiau melyn.



Dysgu am fwyd trwy actio a chael hwyl.

ol Gymunedol Tal-y-bont



Melinau Gwynt Mynydd Gorddu

Cafodd Blwyddyn 5 wibdaith ddiddorol i weld Melinau Gwynt Amgen ar Fynydd Gorddu yn ystod y mis. Roedd y ffordd i fyny mor llithrig fel nad oedd yn bosib i gyrraedd y copa. Diolch byth nad oedd gennym ormod o waith cerdded!

Neuadd Goffa ar ddydd Gwener, Chwefror 26, am 9.15. Dewch i gefnogi'r ysgol, i weld y cystadlu ac i werthfawrogi talentau ifanc

yr ysgol. Bydd y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn darparu lluniaeth ysgafn yn ystod y dydd. Croeso cynnes i bawb.

'Wel dyma ni'n dŵad gyfeillion diniwad...'

Daeth tyrfa dda o ryw 60 o oedolion a phlant i ddathlu'r Hen Galan o dan nawdd Clwb Nos Wener, Tal-y-bont, ar y 15fed o Ionawr. Ar ôl gwrando ar Jeremy Turner o Aberystwyth yn adrodd stori'r Brenin March ap Meirchion yng ngolau kannwyll yng ngwaelod y Neuadd, cychwynnodd pawb ar yr orymdaith yn dilyn y Fari Lwyd o dŷ i dŷ. Cafwyd croeso yn Garreg-wen, Glas y Ddôl, Glasgoed, Henllan ac ym Mhengwern cyn i'r fintai ddiweddu yn y Llew Gwyn, lle cafwyd cân neu ddwy a chyfle i gymdeithasu. Dyna braf oedd gweld cynifer o deuluoedd ifanc yn ymuno â'r orymdaith sydd, erbyn hyn, yn un o'r digwyddiadau hwyliog yng nghalendyr y gymuned. Diolch yn fawr i'r trefnwyr ac i Jeremy Turner a Mathew Clubb am eu parodrwydd i'n harwain eleni eto. Casglwyd £275 tuag at Apêl Haiti. Llun: Jeremy Turner yn diddanu'r plant cyn gorymdaith y Fari Lwyd.



Dweud eich dweud

Dim gwasanaeth Cymraeg?

Anfodlon â'r gwasanaeth Cymraeg a gawsoch?

Am gyngor ynghylch eich hawl i gwyno am gorff cyhoeddus a sut i wneud hynny, cysylltwch â:

Bwrdd yr Iaith Gymraeg,
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair,
Caerdydd, CF10 1AT

029 2087 8000

post@byig-wlb.org.uk byig-wlb.org.uk



Yswiriant, Pensiynau, Buddsoddiadau

Am wasanaeth personol a chyfeillgar, ffoniwch ein swyddfa lleol yn Aberystwyth ar:

01970 612331

www.nfumutual.co.uk/aberystwyth



NFU Mutual

INSURANCE PENSIONS INVESTMENTS

We do right by you

NFU Mutual is The National Farmers Union Mutual Insurance Society Limited (No. 11982). Registered in England. Registered Office: Tiddington Road, Stratford Upon Avon, Warwickshire CV37 7BJ. For security and training purposes, telephone calls may be recorded and monitored.

Cymdeithas Defaid Mynydd Ceredigion

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol Cymdeithas Defaid Mynydd Ceredigion nos Wener 29 Ionawr yng Ngogerddan. I gychwyn y cyfarfod, cafwyd gair o gydymdeimlad gan y cadeirydd yn dilyn colli Llywydd y Gymdeithas, sef y diweddar Glyn Vaughan, Capel Bangor. Roedd wedi bod yn Llywydd er 2003. Pasiwyd i Gwilym Jenkins, Llety'r Bugail ei ddilyn, Emyr Davies yn cynnig a Dafydd Jones yn eilio.

Mae yn arferiad i swydd y Cadeirydd bara am ddwy flynedd, ac yr oedd tymor Simon Lloyd-Williams, Moelglomen, wedi gorffen, a phasiwyd i Beryl Evans, Glanrafon, ei ddilyn, Enoc Jenkins yn cynnig a Glyn Rowlands yn eilio. Gan fod Beryl wedi bod yn is-gadeirydd am ddwy flynedd, yr un newydd yw Huw Davies, Llety Ifan Hen. Roedd y Trysorydd, Dafydd Jenkins, Penpompren Uchaf, er 1984 yn dal at y swydd, a'r Ysgrifennydd, Gareth Evans, Sŵn-y-ffrwd, er 1987 hefyd yn dal ati.

Cafwyd trafodaeth ar amryw o faterion eraill fel seli hyrddod yn Nolgellau, a'r prawf ar 39 o ŵyn hyrddod yn ystod y gaeaf. Aeth Dafydd Jenkins trwy gyfrifon 2009 a oedd dipyn yn well i'r bugail na'r rhai cynt.

I orffen, roedd John Hughes, Pen-cwm, wedi trefnu i gael gŵr gwadd, sef John Jones, Pantycynghorion, Llangwryfon, i roi hanes ei ardal a'i ddiddordebau, llais da ac yn ddiddorol iawn.

Talodd Tegwyn Lewis y diolchiadau i'r gŵr gwadd. I gloi'r noson, roedd Simon, Eileen a Glyn wedi paratoi lluniaeth ardderchog a phawb wedi mwynhau ei hunain. Gareth Evans

CYNGOR CYMUNED CEULANAMAESMAWR

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf 2010 nos Lun 25 Ionawr, gyda'r Cynghorydd Megan Mai yn y gadair.

Adroddwyd bod seremoni lwyddiannus wedi'i chynnal ddydd Iau 3 Rhagfyr i gynnalw'r goleuadau Nadolig. Talwyd diolch gan y Cadeirydd i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd at lwyddiant yr achlysur, sydd bellach wedi ennill ei lle yng nghalendr blynyddol y gymuned. Cytunwyd i anfon llythyr o ddiolch at Ysgol Gymunedol Tal-y-bont, ac at Dilwyn Lewis, am eu cyfraniadau gwerthfawr. Da oedd deall hefyd gan y Cynghorydd Emyr Davies bod y trefniadau i gael coeden Nadolig y tu allan i Eglwys Bont-goch wedi bod yn llwyddiant.

Yn dilyn cwyn gan drigolion Dôl Pistyll am arafwch y datblygwr i gwblhau'r gwaith tacluso o gwmpas y stad, adroddwyd bod llythyr wedi'i dderbyn oddi wrth H.T. Morgan, Cyfarwyddwr Priffyrdd, Eiddo a Gwaith Cyngor Sir Ceredigion, yn nodi eu bod wedi cysylltu â chyfreithwyr y datblygwr ynghylch yr angen i symud ymlaen i fabwysiadu Dôl Pistyll. Derbyniwyd neges oddi wrth y Cydlynnydd Llwybrau Cyhoeddus Cymunedol yn nodi bod y dasg o wneud gwelliannau i rai llwybrau troed a llwybrau ceffyl yng nghyffiniau Bont-goch bellach ar waith. Mae'r gwelliannau'n cynnwys gwaith megis gosod sticlau a giataiau, ynghyd â chodi arwyddbyst newydd. Derbyniwyd cais i gefnogi ymgyrch y Cynghorydd Frank Hitchens, Cyngor Cymuned y Borth, i wella'r gwasanaeth bysiau yn y Borth a'r ardaloedd cyfagos. Cytunwyd i gefnogi'r ddeiseb.

Derbyniwyd gwahoddiad oddi wrth y Comisiwn Ffiniau i fynegi barn ar wardiau etholiadol Cyngor Sir Ceredigion. Cytunwyd i anfon llythyr at y Comisiwn yn awgrymu parhau'r trefniant presennol parthed Ward Ceulanamaesmawr. Oherwydd natur wasgaredd yr ardal, teimlai aelodau'r Cyngor y dylid parhau'r drefn o gael un Cynghorydd Sir i gynrychioli cymunedau Ceulanamaesmawr, Llangynfelyn ac Ysguborycoed. Hefyd roedd y Cyngor yn gwrthwynebu'r posibilrwydd o fabwysiadu wardiau amlaelod mewn ardaloedd gwledig.

Mewn ymateb i lythyr oddi wrth Digby Bevan, Hwylusydd Tai Gwledig Ceredigion, yn gofyn a yw'r Cyngor am iddo drefnu i gynnal arolwg o anghenion tai lleol er mwyn canfod a oes galw am ragor o dai fforddiadwy yn y gymuned, cytunwyd mewn

egwyddor i gynnal arolwg, ond gofynnwyd i'r Clerc holi am fanylion pellach. Daeth gwahoddiad oddi wrth Gadeirydd Pwylgor Cyhoeddusrwydd Eisteddfod Urdd Gobaith Cymru i archebu baneri a byntin i groesawu'r eisteddfod i Geredigion ym mis Mai. Pasiwyd i holi am ragor o wybodaeth am brisiau. Derbyniwyd adroddiad blynyddol Zurich ar gyflwr offer y Cae Bach. Cytunwyd i ychwanegu'r mân ddiffygion a nodwyd ganddynt at y tasgau sydd angen sylw.

Cyflwynodd y Clerc adroddiad ariannol chwarterol ar gyfer y cyfnod Hydref – Rhagfyr a ddangosai bod y Cyngor wedi gwario £7,426 yn ystod y flwyddyn mor belled. Ar sail hyn, ynghyd ag adroddiad ar y gwariant tebygol am weddill y flwyddyn ariannol a'r rhagolygon am y flwyddyn nesaf, derbyniwyd gwelliannau i'r Gyllideb ddrafft ar gyfer 2010/11. Cytunwyd i gadw lefel yr archebiant (*precept*) yr un fath ag eleni, sef £12,000.

Ers y cyfarfod diwethaf derbyniwyd cadarnhad ffurfiol parthed dau gais cynllunio, sef Storfa Lerry View, Tal-y-bont ac annedd a garej ar dir Pant Gwyn, Bont-goch. Nodwyd bod yr awdurdod cynllunio wedi rhoi eu caniatâd i'r ddau gais.

Croesawodd y Cynghorwyr y newyddion bod Heulwen Astley, Siop Spar, wedi derbyn cytundeb Gwasanaeth Partner gyda chwmni Swyddfa'r Post. Cytunwyd fod hyn yn fater o ryddhad mawr i drigolion yr ardal gyfan gan eu bod wedi pryderu am dros ddeunaw mis na fyddai gwasanaeth post o unrhyw fath ar gael yn y pentref. Pwysleisiwyd pa mor bwysig yw hi bod y trigolion yn cefnogi'r gwasanaeth a'r siop er mwyn sicrhau eu parhad. Daeth y drefn newydd i rym ar 22 Ionawr, ac oriau agor y Post bellach yw Llun, Mawrth, Iau a Gwener 9–1 a 2–5.30, Dydd Mercher 9–1. Nid yw trefniadau newydd y Swyddfa Post yn effeithio ar oriau agor y siop.

Derbyniwyd nifer o sylwadau beirniadol iawn ar fethiant y Cyngor Sir i gadw'r ffyrdd cefn ar agor yn ystod yr eira a'r rhew yn gynharach yn y mis. Cytunwyd i anfon llythyr at Brif Weithredwr Cyngor Ceredigion yn mynegi dicter am hyn ac yn tynnu sylw at y problemau a wynebwyd gan ffermwyr a thrigolion eraill yr ardal am gyfnod o bythefnos.

Derbyniwyd cwynion nad oedd rhai gwasanaethau Cwmni Arriva o Dal-y-bont i Aberystwyth wedi rhedeg yn ddiweddar. Cytunwyd i anfon llythyr at Gwmni Arriva yn cwyno am hyn ac yn gofyn a yw'r gwasanaethau wedi eu diddymu.



HUW LEWIS



M.O.T. CENTRE

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT



HUW LEWIS



TYRES

Glanyrafon

Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

HUWLEWISTYRES.COM







Ffôn 01970 636774

GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,
Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini
i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk

Ffôn: 01970 832278

Chwaraeon



Tîm pêl-rwyd Ysgol Gymunedol Tal-y-bont a fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth chwaraeon yr Urdd ar 27 Ionawr.

Herio Llwybr Arfordir Ceredigion

Efallai i rai o ddarllenwyr *Papur Pawb* wyllo cyfres 'Ras yn erbyn Amser' ar S4C yn ddiweddar. Derbyniodd y gyflwynwraig deledu, Lowri Morgan yr her o gwblhau Marathon y Jwngwl, sef ras 130 milltir dros chwe niwrnod a hynny drwy fforest law ar lannau'r Amason ym Mrasil.

Ymddangosodd dau wyneb cyfarwydd yn ail raglen y gyfres, sef Eifion Jones, Craig y Delyn a'i chwaer, Rhian, sydd wedi ymgartrefu yn Abertawe ers rhai blyneddau. Bu Rhian yn ymarfer rhyw ychydig gyda Lowri yn ystod 2009, a hynny am ei bod hithau yn paratoi ar gyfer marathonau Belffast a Chaeredin. A pha well partner hyfforddi na rhywun mor heini a brwdfrydig â Lowri?!

Pan soniodd Lowri y byddai'n rhaid iddi wneud taith o ryw 60 milltir yn ddi-dor fel rhan o'i pharatoadau, gwyddai Rhian yn syth am llwybr addas ac yn bwysicach fyth, roedd yn nabod y dyn perffaith i arwain y ffordd. Yn sgil ei waith fel Swyddog Hawliau Tramwy gyda Chyngor Sir Ceredigion, bu Eifion ynghlwm wrth y gwaith o greu Llwybr Arfordir Ceredigion. Ac felly y bu i'r tri ohonynt gwrdd ger yr Eglwys yn y Mwnt ar noson braf ym mis Awst y llynedd er mwyn herio'r llwybr, gyda'r gobaith o gyrraedd Tal-y-bont erbyn y noson ganlynol.

Rhwydd yw edrych yn ôl erbyn hyn a sôn am hwn fel profiad pleserus, ond y gwir yw fod cerdded 60 milltir yn ddi-dor yn her



Argraffu 5-lliw
a gwasanaeth di-ail:
holwch Paul am bris
ar paul@ylolfa.com



corfforol a meddyliol a bu ambell i foment dywyll (yn llythrennol pan fethodd 'headlamp' Rhian ger Cei Newydd am 4 o'r gloch y bore!). Yn sicr, roedd profiad ac arbenigedd Eifion yn fendith wrth droedio'r llwybr a gwnaeth hyn sicrhau na fu unrhyw argyfwng na damwain ar hyd y ffordd.

Ymunodd Eurllys, mam Eifion a Rhian, a ffrind o Abertawe am rai milltiroedd ac roedd eu cwmni yn hwb mawr i'r tri blinedig. Penderfynwyd taw yn Nhafarn y Llew Gwyn y dylid gorffen, er mai yn y Borth y daw'r llwybr i ben yn swyddogol. Cytunwyd y byddai gwell croeso ar y Patshyn Glas yn Nhal-y-bont, a rhyw 25 awr wedi gadael gwaelod y sir, cyrhaeddwyd pen y daith a braf oedd gweld wynebau cyfarwydd a chyfeillgar rhai o drigolion Tal-y-bont. Yn wir, cafodd aelod arall o'r teulu Jones gameo ar ddiwedd y rhaglen wrth iddo groesawu'r cerddwyr!

Braf iawn oedd gweld Lowri yn cwblhau Marathon y Jwngwl wedi'r misoedd o waith caled. Mae hi wedi sôn lawer gwaith am sut y bu'r profiad o gerdded Llwybr Arfordir Ceredigion o fudd mawr iddi yn yr Amason.

Mae ambell un wedi gofyn i Eifion a Rhian a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn cerdded y llwybr eto, ond yn y cyfeiriad arall, ac er mai 'na' pendant oedd yr ateb ym mis Awst llynedd...erbyn hyn, pwy a wŷr?!

Mae *Papur Pawb* yn awyddus i gynnwys newyddion am hynt a helynt unigolion neu dimau o'r ardal sy'n cystadlu yn y byd chwaraeon. Anfonwch yr hanesion at Gwyn Jenkins drwy e-bost (maesgwyn@fmail.net) neu ffoniwch ef ar 832560.

Nofwyr Ysgol Gymunedol Tal-y-bont a fu'n llwyddiannus mewn Gala Nofio i ysgolion cylch Aberystwyth ar 1 Chwefror. Pob hwyl i chi gyd yng nghystadleuaeth y sir.